Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 28

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 28

## The Social Care Wales (Proceedings before Panels) (Amendment) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 February 2026* |
| *Coming into force* | *1 April 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 28

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2026

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016 ("Rheoliadau 2016").

Mae Rheoliadau 2016 yn gwneud darpariaeth ynghylch achosion gerbron paneli addasrwydd i ymarfer a phaneli gorchmynion interim.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliadau 18(1)(b) a 30(1)(b) o Reoliadau 2016 er mwyn caniatáu i orchymyn interim gael ei estyn, am gyfnod o hyd at gyfanswm o 18 mis o'r dyddiad y cafodd ei wneud gyntaf, heb wrandawiad, o dan amgylchiadau penodedig.

Mae gorchmynion interim a osodir gan y rheoleiddiwr yn fodd i alluogi i gyfyngiadau dros dro gael eu cymhwyso i gofrestriad person cofrestredig tra bo ymchwiliadau yn cael eu gwneud i honiadau ynghylch addasrwydd i ymarfer a wneir yn erbyn y person hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 28

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 175(1) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2016" yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion Gerbron Paneli) 2016(**2**).

### Diwygio Rheoliadau 2016

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 2016 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18(1)(b) (achosion gorchmynion interim: pan nad oes angen gwrandawiad), yn lle "(e)" rhodder "(f)".

(3) Yn rheoliad 30(1)(b) (achosion gorchmynion interim: pan nad oes angen gwrandawiad), yn lle "(e)" rhodder "(f)".

*Dawn Bowden*
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
4 Chwefror 2026

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) O.S. 2016/1100, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 28

# SOCIAL CARE, WALES

## The Social Care Wales (Proceedings before Panels) (Amendment) Regulations 2026

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Social Care Wales (Proceedings before Panels) Regulations 2016 ("the 2016 Regulations").

The 2016 Regulations make provision about proceedings before fitness to practise panels and interim orders panels.

Regulation 2 amends regulations 18(1)(b) and 30(1)(b) of the 2016 Regulations to allow an interim order to be extended, for a period of up to 18 months in total from the date it was first made, without a hearing, in specified circumstances.

Interim orders imposed by the regulator are a means to enable temporary restrictions to be applied to a registered person's registration while investigations are undertaken into fitness to practise allegations made against that person.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Department of Health and Social Services, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 28

## SOCIAL CARE, WALES

## The Social Care Wales (Proceedings before Panels) (Amendment) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 February 2026* |
| *Coming into force* | *1 April 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 175(1) and 187(1) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**1**), make the following Regulations.

### Title, coming into force and interpretation

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Social Care Wales (Proceedings before Panels) (Amendment) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2026.

(3) In these Regulations, “the 2016 Regulations” means the Social Care Wales (Proceedings before Panels) Regulations 2016(**2**).

### Amendments to the 2016 Regulations

**2.**—(1) The 2016 Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 18(1)(b) (interim orders proceedings: when a hearing is not necessary), for “(e)” substitute “(f)”.

(3) In regulation 30(1)(b) (interim orders proceedings: when a hearing is not necessary), for “(e)” substitute “(f)”.

*Dawn Bowden*
Minister for Children and Social Care, under authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
4 February 2026

(**1**) 2016 anaw 2.
(**2**) S.I. 2016/1100, to which there are amendments not relevant to these Regulations.